


14-18-NOW
WW1 CENTENARY ART COMMISSIONS

# PABÏAU
# Y DON A'R FFENESTR WYLOFUS

## GAN YR ARTIST PAUL CUMMINS A'R DYLUNYDD TOM PIPER

ADNODDAU DYSGU'R RHYFEL BYD CYNTAF
AR GYFER DISGYBLION 9 – 13 OED
LLYTHRENNEDD, CELF A HANES

01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 1 12/10/2016 17:08

01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 2 12/10/2016 17:08

# ADNODDAU DYSGU'R RHYFEL BYD CYNTAF AR GYFER DISGYBLION 9 – 13 OED LLYTHRENNEDD, CELF A HANES

## CYNNWYS


4 Cyflwyniad

5 Am yr Adnodd hwn

10 Mapio a Chysylltu Adnoddau â Chwricwlwm CA2 – CA3

11 Gwers 1 – Chwilotwyr Ffeithiau: Ymchwilio i'r Rhyfel Byd Cyntaf

13 Gwers 2 – Rhyfel: Ysgrifennu Barddoniaeth am Fywyd yn y Ffosydd

15 Gwers 3 – Stori ym mhob Llun: Gweledigaeth Paul Nash am y Rhyfel Byd Cyntaf

17 Gwers 4 – Sut i fod yn Dywysydd Hanes

19 Gwers 5 – Pŵer y Pabi

21 Gwers 6 – Ganrif yn Ddiweddarach

23 Taith y Pabi: Gweithgaredd Dosbarth ar y Safle – *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*

25 Mynd Ymhellach - Pinio eich Pabi

27 Dolenni Gwefan Y Rhyfel Byd Cyntaf

Taflenni Gwaith Disgyblion i'w Llungopïo

Y Grid Emosiynau – Mynegi'ch Hun


Llun ar y clawr: Pabïau, y Ffenestr Wylofus gan yr artist Paul Cummins a'r Dylunydd Tom Piper



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 3 12/10/2016 17:08





# CYFLWYNIAD

**Mae 14-18 NOW yn cyflwyno cerfluniau pabi *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*, gan yr artist Paul Cummins a'r dylunydd Tom Piper mewn lleoliadau dethol o gwmpas y DU tan 2018.**

Rhaeadr o filoedd ar filoedd o babïau cerameg a wnaed â llaw yw *Y Ffenestr Wylofus* sy'n llifo o ffenestr uchel i'r llawr isod. Mae *Y Don* yn arch ymestynnol o bennau pabi llachar wedi'u gosod ar goesynnau anferth. Bellach mae'r ddau gerflun, sy'n nodi canmlwyddiant dechrau'r rhyfel, yn dod i gynulleidfaoedd a lleoliadau ledled y wlad, yn rhan o'r rhaglen gelf 14-18 NOW, sef rhaglen gelf y DU i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Crëwyd y ddau gerflun yn gyntaf yn elfen ddramatig yn yr arddangosfa *Blood Swept Lands and Seas of Red* yn Nhwr Llundain yn 2014, er mwyn nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ystod eu hamser yn y Twr, amgylchynwyd y ddau gerflun yn raddol â chae enfawr o babïau cerameg, a phob un wedi ei blannu gan wirfoddolwr er cof am filwr o Brydain neu'r Ymerodraeth a gollodd ei fywyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn eu lleoliad gwreiddiol, cydion nhw yn nychymyg y cyhoedd a  daeth dros bum miliwn i'w gweld.

Nod yr adnodd hwn yw helpu disgyblion i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r Rhyfel Byd Cyntaf trwy symbol arhosol y pabi ac ysgogi deilliannau llythrennedd drwy gelf, hanes a llenyddiaeth. Mae'r holl adnoddau a geir yn y pecyn hwn yn annog y disgyblion i drafod a meddwl yn annibynnol am *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'r modd y cysyllta'r arddangosfeydd hyn â themâu ehangach y Rhyfel Byd Cyntaf.

Llun o'r chwith i'r dde
Cydnabyddiaeth llun: Pabïau: Y Ffenestr Wylofus yn Neuadd St George, 2015. Gan Mark McNulty
Cydnabyddiaeth llun: Hawlfraint Richard Lee-Hair a Phalasau Brenhinol Hanesyddol
Cydnabyddiaeth llun: Y Don ym Mharc Cerfluniau Swydd Efrog, 2015. Getty



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 4 12/10/2016 17:08





# AM YR ADNODD HWN

**Mae'r dilyniannau dysgu yn y pecyn hwn yn gyforiog o syniadau creadigol ac ymarferol ar gyfer athrawon cynradd ac uwchradd sy'n ymweld â cherfluniau *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* mewn gwahanol leoliadau yn y DU ynghyd â'r rheini sy'n chwilio am weithgareddau annibynnol i archwilio'r Rhyfel Byd Cyntaf ac arwyddocâd Pabi'r Cofio.**

Yn gefndir i bob gweithgaredd ceir lluniau o'r arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* er mwyn myfyrio ar y straeon y tu ôl i'r pabïau a meithrin dialog am y rhyfel. Yn y gwersi eir ati i fynd i'r afael â barn a hanes a fynegir trwy farddoniaeth **Hedd Wyn** a phaentiadau profoclyd **John Nash** a **Christopher Richard Wynne Nevinson**. Mewn ymateb i'r argraffiadau hyn, anogir y plant i lunio eu cerddi eu hunain, paentio eu lluniau eu hunain ac adrodd eu straeon eu hunain.

Anelir yr adnoddau yn bennaf at Flynyddoedd 5 – 8 yng Nghymru a Lloegr, Blynyddoedd 6 – 9 yng Ngogledd Iwerddon a P6 – S2 yn yr Alban, ond byddai'n hawdd i blant iau neu hŷn eu defnyddio hefyd. Canolbwyntia bob un o'r dilyniannau dysgu ar lwybr wedi ei sgaffaldu at weithgaredd a gellir ei addasu i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae'r mynegiannau wedi eu hanelu at ddisgyblion gyda:

- Nodau ac amcanion allweddol
- Syniad cychwynnol a phrif weithgareddau
- Sesiynau clo
- Gweithgareddau ymestynnol
- Syniadau ar gyfer gweithgareddau ychwanegol

Anela pob un o'r dilyniannau at gyfoethogi sgiliau llafar a symbylu cwestiynau, trafodaeth, perfformiad, cyflwyniad a beirniadaeth.



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 5 12/10/2016 17:08



# PABÏAU: Y DON
## CASTELL LINCOLN



Llun gan: Andy Tynor a Chyngor Sir Swydd Lincoln, 2016



# PABÏAU: Y FFENESTR WYLOFUS
## EGLWYS GADEIRIOL ST MAGNUS, KIRKWALL

01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 8 12/10/2016 17:08



Llun gan: Michael Bowles a Getty Images, 2016

# MAPIO A CHYSYLLTU ADNODDAU Â CHWRICWLWM CA2 – CA3

**Mapiwyd pob un o'r adnoddau yn ôl Rhaglen Astudio Lloegr a chwricwla llythrennedd Cymru, Gogledd Iwerddon, a'r Alban:**

## Darllen

**9-11 Oed**

- Darllen am bleser a thrafod ystod eang o ffuglen, cerddi, dramâu, llyfrau ffeithiol a llyfrau cyfeiriol neu werslyfrau
- Paratoi cerddi i'w darllen yn uchel a'u perfformio, gan ddangos dealltwriaeth trwy oslef, tôn ac uchder llais er mwyn bod yr ystyr yn glir i gynulleidfa
- Trafod a gwerthuso sut y defnyddia awduron iaith, gan gynnwys iaith drosiadol, gan ystyried yr effaith ar y darllenydd
- Annog disgyblion i esbonio a thrafod eu dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd ganddynt trwy gyflwyniadau a thrafodaethau, gan barhau i ganolbwyntio ar bwnc a defnyddio swn yn ôl yr angen

**11-13 Oed**

- Darllen am syniadau allweddol, mwynhad, ennyn diddordeb ac empathi
- Ymwneud ag ystod eang o destunau mwyfwy cymhleth gan gynnwys testunau Saesneg, Gwyddeleg, Albanaidd a Chymraeg
- Darllen yn feirniadol gan wybod sut mae iaith, gan gynnwys iaith ffigurol, dewis geirfa, gramadeg, strwythur testun a nodweddion trefnu, yn cyfleu ystyr
- Darllen o gwmpas pwnc sydd o ddiddordeb a datblygu dealltwriaeth ehangach ohono trwy waith ymchwil
- Cyfuno syniadau a defnyddio'r hyn a ddysgan nhw mewn cyd-destunau anghyfarwydd, gydag annibyniaeth gynyddol
- Cydnabod iaith ddarbwyllol a gwerthuso dibynadwyedd a pherthnasedd ffynonellau

## Ysgrifennu

**9-11 Oed**

- Dewis a defnyddio amrywiaeth eang o eirfa anturiaethus a llawn dychymyg gyda manylder
- Nodi natur y gynulleidfa a phwrpas yr ysgrifennu, dewis y ffurf briodol a defnyddio iaith arall debyg yn fodelau buddiol
- Drafftio'r ysgrifennu trwy ddewis gramadeg a geirfa briodol, deall sut y mae'r dewisiadau hyn yn newid ac yn gwella ystyr
- Prawfddarllen eu gwaith a gwaith eraill, ei asesu a'i werthuso gan wneud argymhellion clir ar gyfer ei wella

**11-13 Oed**

- Ysgrifennu am bleser a chynhyrchu gwybodaeth gyda chywirdeb gramadegol, gan amrywio hyd a strwythur brawddegau er mwyn gwneud yr ystyr yn glir
- Cynllunio, drafftio, golygu a phrawfddarllen gwaith trwy ystyried sut mae'r ysgrifennu'n adlewyrchu'r cynulleidfaoedd a'r pwrpas y'i bwriadwyd ar eu cyfer a newid yr eirfa, y gramadeg a'r strwythur i wella ei gydlyniant a'i effeithiolrwydd cyffredinol
- Ysgrifennu adroddiad cynhwysfawr am bwnc gan gyflwyno gwybodaeth, prosesau a syniadau'n glir ac yn briodol

## Llefaredd

**9-11 Oed**

- Siarad yn glir, gan ddefnyddio iaith ffurfiol a thaflu'r llais yn effeithiol at gynulleidfa
- Esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi, e.e. defnyddio geirfa, ystum, cynorthwyon gweledol
- Ymateb i eraill gyda chwestiynau a sylwadau sy'n canolbwyntio ar resymau, goblygiadau a'r camau nesaf
- Mynegi barn yn glir am bynciau a thestunau ysgrifenedig a chynnwys rhesymau ategol

**11-13 Oed**

- Rhoi areithiau a chyflwyniadau byr, gan fynegi syniadau heb wyro o'r pwnc
- Cymryd rhan mewn dadleuon ffurfiol a thrafodaethau strwythuredig, gan grynhoi a/neu adeiladu ar yr hyn a ddywedwyd
- Ymarfer a pherfformio barddoniaeth a thrafod y defnydd ar iaith ac ystyr, defnyddio rôl, goslef, ton, uchder, ton, tawelwch, llonyddwch a gweithredu i ychwanegu effaith
- Ymwneud, trwy iaith, â chymeriadau a sefyllfaoedd ffug a go iawn, er mwyn archwilio emosiynau a datblygu potensial creadigol



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 10 12/10/2016 17:08

# GWERS 1: CHWILOTWYR FFEITHIAU
# 9 – 13 OED

**60-MUNUD**



## Ymchwilio i'r Rhyfel Byd Cyntaf

| | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod ac ymwneud â lluniau o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Dod yn CHWILOTWR FFEITHIAU ac ymchwilio i'r Rhyfel Byd Cyntaf a chyflwyno'r wybodaeth hon |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rhannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf wylio rhaglen ddogfen fer a gwrando'n ofalus am wybodaeth allweddol a gwneud nodiadau defnyddiol<br>• Gallaf ddewis ffeithiau allweddol am y Rhyfel Byd Cyntaf a chreu, gyda'm partner, gyflwyniad dwy funud |
| Adnoddau | • Lluniau o *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Ystafell Gyfrifiaduron ar gyfer gweithgaredd parau<br>• Ffilmiau Rhyfel Byd Cyntaf BBC Schools: www.bbc.co.uk/schools/0/ww1/<br>• Clustffonau<br>• Taflen gweithgareddau disgyblion<br>• Dolenni gwe (yng nghefn y pecyn)<br>• Nodiadau Post-IT |
| Dechrau Arni<br>15 munud | Dangoswch luniau i'r disgyblion o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* ar y bwrdd gwyn electronig. Rhowch y disgyblion mewn parau a rhoi pum munud iddyn nhw weithio trwy'r cwestiynau canlynol:<br>• Beth mae'r artist neu'r dylunydd yn ceisio ei ddweud wrthych?<br>• Pa syniad sydd wrth wraidd yr arddangosfa?<br>• Dewiswch bum gair i ddisgrifio'r hyn a welwch<br><br>Nawr rhowch wybodaeth gefndirol i ddisgyblion am yr arddangosfeydd:<br>• Cyflwynwyd *Y Ffenestr Wylofus* ac *Y Don* yn wreiddiol yn ddwy elfen gerfluniol ganolog i'r arddangosfa *Blood Swept Lands and Seas of Red* yn Nhwr Llundain – pabïau a chysyniad gwreiddiol gan **Paul Cummins** ac arddangosfa a ddyluniwyd gan **Tom Piper**<br>• Bob dydd, rhwng 17 Gorffennaf ac 11 Tachwedd yn 2014, i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, plannwyd pabïau yn y gwair o gwmpas y cerfluniau nes i'r cyfanswm gyrraedd 888,246, sef nifer y marwolaethau milwrol o Brydain a'r Ymerodraeth yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Wrth i'r haul fachlud, darllenwyd enwau 180 o'r rheini a laddwyd yn y Rhyfel, a enwebwyd gan y cyhoedd, mewn seremoni cyn canu'r Post Olaf<br>• Roedd y pabi'n olygfa gyfarwydd ar feysydd y gad ar Ffrynt y Gorllewin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, lle blodeuodd ymysg dinistr y rhyfela yn y ffosydd. Fe'i mabwysiadwyd yn symbol o gofio |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 11 12/10/2016 17:08

| | |
|---|---|
| | Rhowch nodyn Post-It a gofyn i'r disgyblion ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain ystyr *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* iddyn nhw.<br>A ydy'r arddangosfa…<br>• Yn cynrychioli dioddefwyr rhyfel mewn modd gwahanol?<br>• Yn ymwneud â 'mynd dros yr ymyl' neu fynd i'r gad?<br>• Yn eich helpu chi i ddeall niferoedd y dynion a'r menywod a fu farw?<br>• Yn symboleiddio rhyfeloedd gwaedlyd y Rhyfel Byd Cyntaf?<br>Gofynnwch iddyn nhw ddarllen o'u nodyn Post-It, naill ai gair neu frawddeg sy'n crisialu'r hyn maen nhw wedi ei ddarllen yn bersonol yn *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*. |
| Y Dasg Fawr<br>35 munud | Mewn parau, daw'r disgyblion yn CHWILOTWYR FFEITHIAU gan ymchwilio i heriau milwyr a sifiliaid yn y Rhyfel Byd Cyntaf.<br>Eu gwaith nhw yw aros mewn parau a:<br>• Gwneud nodiadau wrth iddyn nhw wylio rhaglen ddogfen fer am y Rhyfel Byd Cyntaf<br>• Cytuno, yn bartneriaid, ar beth yw'r wybodaeth fwyaf perthnasol a diddorol yn y rhaglen ddogfen<br>• Cynhyrchu cyflwyniad dwy funud trwy ddefnyddio ffeithiau allweddol<br>Caiff y disgyblion 20 munud i wylio ffilm fer, trafod y ffeithiau a oedd yn taro tant â nhw a chynllunio'r hyn a ddywedan nhw wrth y dosbarth.<br>Atgoffwch y disgyblion mai nod gwneud nodiadau yw:<br>• Ysgrifennu'n gyflym<br>• Dethol geiriau allweddol<br>• Osgoi ysgrifennu mewn brawddegau llawn<br>Gwnewch yn siwr fod gennych stopwatsh neu fod gennych chi gloc er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n mynd dros ddwy funud.<br>Anogwch y disgyblion i ysgrifennu'r ffeithiau o gyflwyniadau disgyblion eraill a gafodd effaith arnyn nhw.<br>Cewch chi ddechrau gwylio ychydig o'r cyflwyniadau yn ystod y wers. Gwyliwch y gweddill yn y wers nesaf. |
| Dod â'r Cyfan at ei Gilydd<br>10 munud | Ar ddiwedd y sesiwn, ar ôl gweld nifer o gyflwyniadau, gwnewch i'r disgyblion:<br>• Bleidleisio ar bwy oedd y chwilotwyr ffeithiau mwyaf llwyddiannus<br>• Nodi pa barau a gyflwynodd yn effeithiol<br>• Esbonio'r elfennau allweddol a wnaeth y cyflwyniadau'n effeithiol |
| Estyniad / Gwaith Cartref | Gofynnwch i'r disgyblion wylio cynifer o raglenni dogfen BBC Schools am y Rhyfel Byd Cyntaf ag y bo modd.<br>Gwnewch i'r disgyblion gadw cofnod CHWILOTWR FFEITHIAU i gofnodi ffeithiau diddorol am y Rhyfel Byd Cyntaf. |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 12 12/10/2016 17:08

# GWERS 2: CYMRAEG
# 11 – 13 OED

**90-MUNUD**



| *Dog Tired:* Llunio Cerddi am Fywyd yn y Ffosydd | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod ac ymwneud â delweddau arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Mynegi dehongliadau personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'u rhannu â'm cyfoedion<br>• Llunio cerdd yn y person cyntaf sydd wedi ei hysbrydoli gan baentiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf ddrafftio cerdd wreiddiol am filwr sy'n disgwyl mynd i'r gad a defnyddio dyfeisiau sy'n adeiladu tensiwn |
| Adnoddau | • Lluniau o *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Lluniau a ddaeth o baentiadau Richard Wynne Nevinson: *Dog Tired* neu *Returning to the Trenches*<br>• Grid emosiynau |
| Dechrau Arni<br>15 munud | Gweler y gweithgaredd cychwynnol yng Ngwers 1 o'r pecyn hwn |
| Y Dasg Fawr<br>65 munud | Mynega'r arddangosfeydd farn rymus am y Rhyfel Byd Cyntaf. Dwedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i fynd i'r afael â golwg arall ar ryfel a geir yng ngwaith yr artist **Christopher Richard Wynne Nevinson**.<br>Rhowch y grid emosiynau i'r plant i ddatblygu eu siarad ymhellach a delweddau o baentiadau Nevinson: *Dog Tired* a *Returning to the Trenches.*<br>Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r daflen waith am baentiadau Nevinson a rhoi adborth.<br>Gwnewch i'r disgyblion feddwl yn gyntaf am gyflwr meddyliol a chorfforol milwyr yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. *'Dydyn ni ddim yn gwybod beth oedd yn mynd trwy feddyliau'r milwyr yn lluniau Nevinson. Yn y man rydych chi'n mynd i lunio cerdd am un o'r milwyr yn y lluniau, Bydd y gerdd yn y person cyntaf ac yn defnyddio cynllun odli.'*<br>• Dioddefodd llawer o filwyr o 'siel-syfrdan' oherwydd yr ymladd a ffrwydro parhaus y sieliau. Yr enw ar 'siel-syfrdan' erbyn hyn yw Anhwylder Straen Wedi Trawma<br>• Gallai ffosydd mwdlyd ac oer achosi 'troed y ffosydd' lle chwyddai aelodau o'r corff a mynd yn llidiog. Heb driniaeth, gallai hyn arwain at fadredd a cholli aelodau<br>• Byddai clefydau yn aml yn lledu'n gyflym oherwydd gorlenwi, amodau annymunol a llygod mawr<br>• Cafodd defnydd arfau cemegol yn y Rhyfel Byd Cyntaf ganlyniadau erchyll. Er enghraifft, gallai nwy mwstard achosi difrod anadlu mewnol, pothelli ar y corff, llid y llygaid, dallineb a marwolaeth<br>• O ganlyniad i amodau aflan y ffosydd roedd llau ac anhwylderau  croen eraill yn rhemp |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 13 12/10/2016 17:08

Rhowch gopi o'r gerdd ***Rhyfel*** gan Hedd Wyn i'r disgyblion, ynghyd â'r eirfa ganlynol:

| | |
|---|---|
| Dreng | garw, chwerw |
| Teyrn | brenin, tywysog |
| Gwrêng | y werin bobl, un o'r bobl gyffredin |
| Hell | hyll, ffiaidd |
| Genid | yr oedd pobl un eu canu |
| Ynghrog | yn crogi, yn hongian |
| Helyg | coed helyg |

Dwedwch wrth y disgyblion fod y gerdd yn cyfleu mewn ychydig eiriau pwerus yr hyn yr oedd y bardd fel milwr yn ei deimlo, ei glywed a'i weld.

Gofynnwch i'r disgyblion wneud y canlynol:

- Darllen y gerdd ar eu pennau eu hunain
- Tanlinellu'r geiriau mwyaf trawiadol (h.y. y rhai sydd yn cael yr effaith fwyaf arnynt)
- Dewis partner ac ailddarllen y gerdd gyda'i gilydd, gan ddarllen llinell bob yn ail
- Trafod, yn eu parau, pa air yw'r un mwyaf pwerus ym mhob llinell, a pham

Ar ôl darllen y gerdd dair gwaith, gofynnwch i'r disgyblion ateb y cwestiynau canlynol yn unigol, gan ddefnyddio nodiadau gludog:

- *Sut mae synau a golygfeydd rhyfel yn effeithio ar y bardd, yn eich barn chi?*
- *Mae Hedd Wyn yn defnyddio geiriau cryf a chyflythreniad i gyfleu ystyr. Beth yw effaith y technegau hyn?*

*Dychmygwch mai chi yw un o'r milwyr yn y darlun* ***Dog Tired****, neu* ***Returning to the Trenches****. Beth sy'n mynd trwy eich meddwl chi wrth i chi orymdeithio neu eistedd yn aros am frwydr?*

- *Drafftiwch gerdd gan ddefnyddio'r un ffurf ag un* **Hedd Wyn** *– tri phennill o bedair llinell sy'n odli abab*
- *Defnyddiwch eiriau emosiynol o gerdd* **Hedd Wyn** *yn eich cerdd eich hun: gwae, dreng, ynghrog, gwaed, glaw*
- *Defnyddiwch deitl y paentiad i ysbrydoli'ch cerdd*
- *Meddyliwch am yr hyn y mae'r gerdd yn ei chyfleu a sut y gallwch chi gyfleu'r emosiynau/syniadau/negeseuon hyn yn eich cerdd*
- *Gorffennwch y gerdd ar gyfer gwaith cartref*

Dod â'r Cyfan at ei Gilydd

Anogwch y disgyblion i ailddrafftio a chaboli'r gerdd.

Er mwyn datblygu ysgrifennu'r disgyblion ymhellach, gallech chi ailadrodd y wers nesaf gyda symbyliad tebyg megis:

- *Travoys Arriving with Wounded at a Dressing-Station* gan **Stanley Spencer** neu ei baentiadau cyfriniol o'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghapel Coffa Sandham



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 14 12/10/2016 17:08

# GWERS 3: CELF
# 9 – 13 OED

**90-MUNUD**



**Stori ym Mhob Llun: Gweledigaeth Paul Nash o'r Rhyfel Byd Cyntaf**

| | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod a mynd i'r afael â'r cerfluniau *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Mynegi sut mae'r paentiadau yn gwneud i chi deimlo<br>• Paentio llun sy'n portreadu bywyd yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rhannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf sôn am nodweddion arbennig paentiadau **Paul Nash** ac esbonio beth maent yn ei ddweud wrthyf i<br>• Gallaf efelychu dull **Paul Nash** o baentio |
| Adnoddau | • Delweddau o *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Delwedd o **Paul Nash**, *The Menin Road*<br>• Taflen waith disgyblion o'r pecyn hwn<br>• Grid Emosiynau<br>• Clip Fideo; www.youtube.com/watch?v=_G4ZY66BG38<br>• Siarcol, pensiliau, rwberi a phapur siwgr |
| Dechrau Arni<br>15 munud | Gweler manylion yng Ngwers 1 o'r pecyn hwn |
| Y Dasg Fawr<br>65 munud | Mae'r arddangosfeydd yn mynegi barn rymus am y Rhyfel Byd Cyntaf. Dwedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i fynd i'r afael â barn arall am ryfel a fynegir gan yr artist o Brydain, **Paul Nash**.<br>Dangoswch baentiad olew **Paul Nash**, *The Menin Road* a'r daflen waith i ddisgyblion o'r pecyn hwn. Gofynnwch i'r disgyblion weithio gyda phartner a defnyddio'r grid emosiynau i'w helpu i esbonio eu hymateb cychwynnol i baentiad **Paul Nash**.<br>Gwnewch yn siwr eich bod wedi egluro unrhyw eiriau ar y Grid Emosiynau nad yw'r disgyblion yn eu deall.<br>Gwnewch i'r plant roi adborth am eu dehongliadau a'u hymatebion personol.<br>Chwaraewch ddarnau am fywyd yn y ffosydd o raglenni dogfen ar yr **History Channel** *(Life in a Trench)* a'r **Discovery Channel** (*Battle of the Somme*):<br>www.youtube.com/watch?v=_G4ZY66BG38<br>www.youtube.com/watch?v=Fvlluxh2kY<br>Cyrchwch ffotograffau eraill a thestunau am fywyd yn y ffosydd i'w rhoi mewn grwpiau bach. |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 15 12/10/2016 17:08

Dwedwch wrth y disgyblion eu bod nhw'n mynd i ddefnyddio'r ffynonellau hyn i gael gwybodaeth ar gyfer paentiad neu ddarlun yn arddull **Paul Nash**. Gofynnwch i'r disgyblion bortreadu milwr/milwyr:

- Yn aros am gael mynd i'r gad
- Yn ymdeithio tua'r frwydr

Gofynnwch i'r disgyblion edrych yn ofalus ar arddull paentio Nash a'i balet o liwiau, Gofynnwch i'r disgyblion feddwl yn ofalus am y canlynol:

- Lliw a thôn (tywyll a golau)
- Rhythm a seibiant (y lle rhwng elfennau yn y paentiad)
- Gwead a gwneud marciau
- Patrwm ac ailadrodd
- Siapau a ffurfiau (ffurfiau tri dimensiwn)

Mae pob disgybl yn creu ei dôn ei hun gan dynnu llun siarcol. Hwn fydd drafft / braslun / dechrau paentiad sydd i ddod.

**Dull:** rwbiwch siarcol i mewn i'r papur i orchuddio'r holl arwynebedd â haen o dôn (sef y 'llawr'). Wedyn ewch ati i greu darlun trwy ddefnyddio siarcol i ychwanegu llinellau; a throi'n dywyllach, a defnyddio rwber i greu tonau goleuach.

Dod â'r Cyfan at ei Gilydd
10 munud

Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn parau newydd i feirniadu gwaith ei gilydd gan ddefnyddio'r Grid Emosiynau i helpu gyda'r eirfa.

- Beth mae'r syniad cychwynnol yn gwneud i chi deimlo?
- Ydy'r gwaith yn llonydd neu'n llawn symudiad?
- Ydy'r gwaith yn fwy am siapiau neu linellau?
- Beth yw'r naratif?
- Sut mae'r gwaith yn dylanwadu ar y ffordd rydych chi'n symud eich llygaid?
- Ydy'r gwaith yn uchel (yn teimlo'n uchel) neu'n dawel (yn teimlo fel sibrydiad)?

Ymestyn / Gwaith Cartref

Mae'r disgyblion yn datblygu eu gwaith ymhellach yn baentiadau llawn.

Anogwch y disgyblion i archwilio mwy o baentiadau a brasluniau **Paul Nash** am y Rhyfel Byd Cyntaf ac yn enwedig:

*Wire*
*Spring in the Trenches, Ridge Wood*
*We Are Making a New World*

Awgrymwch fod y disgyblion yn parhau i ddefnyddio'r grid emosiynau i'w helpu i ddatblygu eu barn bersonol a'u dehongliadau am waith Nash.



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 16 12/10/2016 17:08

# GWERS 4: HANES
# 9 – 13 OED

**60-MUNUD**



**Sut i fod yn Dywysydd Hanes**

| | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod a mynd i'r afael â'r lluniau o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Nodi sgiliau cyfathrebu hanfodol tywysydd taith hanes<br>• Paratoi a dysgu ar y cof araith dwy funud am gofeb leol sy'n cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rhannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf ddefnyddio sgiliau siarad cyhoeddus tywysydd taith:<br>- taflu'r llais yn dda<br>- dangos awch am hanes<br>- dysgu a chofio ffeithiau a ffigurau<br>- ennyn diddordeb cynulleidfa |
| Adnoddau | • Delweddau o *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Taflen waith disgyblion<br>• Delweddau o gofebion lleol ac enwog o'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>• Grid Emosiynau |
| Dechrau Arni<br>10 munud | Gweler manylion y gweithgaredd cychwyn yng Ngwers 1 o'r pecyn hwn |
| Y Dasg Fawr<br>40 munud | Mae *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* yn weithiau celf gerfiedig sy'n cofio'r 888,248 o filwyr Prydain a'r Ymerodraeth a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Dwedwch wrth y disgyblion fod cofebion wedi cael eu codi ledled y DU ar ôl y Rhyfel i gofio'r rheini a fu farw. |
| | *Sut olwg sydd ar gofebion rhyfel?*<br>• *Mae pob un yn unigryw*<br>• *Cynrychiolant y ffordd y mae'r gymuned am gofio'r meirw – gyda phlac, cofadail, cofeb, adeilad, ac ati*<br>• *Mae arysgrifen ar gyfer y rheini a fu farw*<br>• *Gallent fod mewn lle preifat neu gyhoeddus*<br>• *Gallent fod dros dro neu'n barhaol* |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 17 12/10/2016 17:08

Mae Tywysydd Hanes yn dod â hanes yn fyw a gall hyn gynnwys mynd â phobl i gofebion rhyfel er mwyn:

- Eu cyflwyno i amgueddfa neu safle hanesyddol
- Rhoi ffeithiau diddorol a chofiadwy
- Rhannu straeon o hanes sydd o ddiddordeb i bobl

Rhowch i'r disgyblion y daflen gwaith, y Grid Emosiynau a chasgliad o luniau (gyda ffeithiau) rydych wedi ei gael o gofeb rhyfel leol.

Bydd y disgyblion yn llunio araith dwy funud gan gymryd rôl Tywysydd Hanes. Pwysleisiwch wrth y disgyblion na all eu cynulleidfa weld na phrofi'r gofeb, felly bydd eu gallu i'w disgrifio'n hollbwysig.

| | |
|---|---|
| Dod â'r Cyfan at ei Gilydd<br>10 munud | Bydd rhai disgyblion yn rhoi cyflwyniad yn y wers hon ac eraill yn y wers nesaf. Bydd y disgyblion yn dechrau gwerthuso areithiau ei gilydd:<br>Defnyddiwch y raddfa hon:<br>4. Roeddwn i'n gwrando'n astud ac yn llawn diddordeb yn y wybodaeth a oedd yn cael ei chyflwyno<br>3. Gwnes i wrando'r rhan fwyaf o'r amser a hoffi ychydig o'r cyflwyniad<br>2. Gwnes i wrando mewn mannau ac roeddwn i'n eithaf hoff o arddull y cyflwyniad<br>1. Roedd fy ngwrandawiad braidd yn ysbeidiol |
| Ymestyn / Gwaith Cartref | Mae'r disgyblion yn datblygu eu haraith Tywysydd Hanes ac yn dewis pwnc o'r Rhyfel Byd Cyntaf sydd o ddiddordeb go iawn iddyn nhw, gan ddefnyddio'r dolenni gwefannau yng nghefn yr adnodd hwn.<br>Beirdd o'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>Menywod a'r Rhyfel<br>Plant a'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>Sut dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf<br>Brwydr y Somme<br>Tir Neb<br>Straeon Rhyngwladol o'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>Posteri propaganda a chelf yn erbyn y rhyfel |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 18 12/10/2016 17:08

# GWERS 5: LLYTHRENNEDD 9 – 13 OED

**60-MUNUD**



**Pwer y Pabi**

| | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod a mynd i'r afael â'r lluniau yn arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Archwilio ystyr Pabi'r Cofio a'i le yn ein diwylliant |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf sôn am hanes Pabi'r Cofio a'i ystyr i mi'n bersonol |
| Adnoddau | • Delweddau o *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Taflen waith disgyblion<br>• Delweddau o babïau mewn cae a delweddau o babi'r cofio y mae pobl yn ei roi ar labed<br>• Clip fideo: www.youtube.com/watch?v=K8JvOT9eFUY |
| Dechrau Arni<br>10 munud | Gweler manylion y gweithgaredd cychwyn yng Ngwers 1 o'r pecyn hwn |
| Y Dasg Fawr<br>35 munud | Defnyddia *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* filoedd o babïau ar gyfer cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd pabïau'n gyffredin iawn ar Ffrynt y Gorllewin am eu bod yn ffynnu mewn pridd lle bu bomio a brwydro. Maen nhw'n flodau gwydn a dyfai wrth eu miloedd ar feysydd y gad ac a droes bridd y frwydr yn fôr o goch. Daeth y pabi'n symbol o gofio ledled y byd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.<br>Rhowch ddwy ddelwedd wahanol o'r pabi i'r disgyblion: cae llawn pabïau a phabïau gwneud y Lleng Brydeinig Frenhinol. Holwch y disgyblion beth maen nhw'n ei wybod am y pabi.<br>• Symbol o gofio<br>• Cysylltiedig â meysydd brwydro'r Rhyfel Byd Cyntaf<br>• Daeth pabi Fflandrys yn flodyn cofio swyddogol oherwydd cerdd **John McCrae** *In Flanders Fields* |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 19 12/10/2016 17:08

Wedyn ewch yn ddyfnach am beth mae'r disgyblion yn ei wybod am Sul y Cofio. Trafodwch beth sy'n digwydd ar Sul y Cofio:

- Cyhoeddwyd y Cadoediad am 11 y bore ar 11 Tachwedd 1918
- Sul y Cofio yw'r ail Sul ym mis Tachwedd
- Cynhelir dwy funud o dawelwch i gofio
- Anrhydeddir y meirw wrth y Gofadail gan filwyr sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu
- Ymwelir â chofebion rhyfel a chynhelir gwasanaethau yn y DU ac ar draws y byd
- Mae pobl yn rhoi pabi yn eu llabed ac yn gosod torchau wrth gofebion lleol

Gwnewch i'r disgyblion gydweithredu mewn parau a rhoi pwyntiau yn nwy golofn gyntaf y daflen i ddisgyblion sy'n ymwneud â'r wers:

| BETH RWY'N EI WYBOD | BETH HOFFWN I WYBOD | BETH DDYSGAIS I |
|---|---|---|

Wedyn dangoswch i'r disgyblion ddarn priodol o'r ffilm fer wedi ei hanimeiddio, *The Poppy Story*. Mae'n egluro'n glir sut a pham daeth y babi'n symbol o heddwch. Gofynnwch i'r disgyblion wneud nodiadau.

www.youtube.com/watch?v=K8Jv0T9eFUY

Gofynnwch i'r disgyblion gwblhau'r rhan olaf o'r siart: Beth ddysgais am babïau.

| | |
|---|---|
| Dod â'r Cyfan at ei Gilydd<br>10 munud | Gofynnwch i'r disgyblion edrych eto ar y lluniau o arddangosiadau *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*.<br>A yw eu barn neu eu dehongliadau wedi newid ar ôl cael rhagor o wybodaeth am arwyddocâd y pabi? |
| Ymestyn / Gwaith Cartref | Heriwch y disgyblion i ddarganfod rhagor am y modd y mae gwledydd o gwmpas y byd yn cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf a pha symbol y maen nhw wedi ei fabwysiadu. Er enghraifft, yn Ffrainc glas yr yd (Bleuet de France) yw'r symbol yn hytrach na'r pabi. |



Llun gan: Michael Bowles Hawlfraint Getty Images



# GWERS 6: HANES A LLYTHRENNEDD 9 – 13 OED

**60-MUNUD**



**Ganrif yn Ddiweddarach – Telynau ynghrog**

| | |
|---|---|
| Amcan Dysgu | • Archwilio, trafod a mynd i'r afael â'r lluniau o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*<br>• Archwilio'r Cofio yng ngoleuni englynion *Ar Gofadail* a **Hedd Wyn** gan **R. Williams Parry** |
| Deilliant Dysgu | • Gallaf fynegi fy nehongliad personol o arddangosfeydd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* a'i rhannu â'm cyfoedion<br>• Gallaf siarad am englynion **R. Williams Parry** *Ar Gofadail* a **Hedd Wyn** a sut maen nhw yn gwneud imi deimlo wrth feddwl am ryfel |
| Adnoddau | • Taflen waith disgyblion<br>• Clipiau Sain o YouTube:<br>- *The Lark Ascending* gan **Ralph Vaughan Williams**<br>- *Y Post Olaf*<br>- *Adagio For Strings* gan **Samuel Barber**<br>- 2[ik] *Symudiad, Serenade for Strings* gan **Edward Elgar** |
| Dechrau Arni<br>15 munud | Gweler manylion y gweithgaredd cychwyn yng Ngwers 1 o'r pecyn hwn |
| Y Dasg Fawr<br>35 munud | Dwedwch wrth y disgyblion fod cerfluniau *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* yn cysylltu â myfyrdodau artistiaid, awduron a beirdd eraill y Rhyfel Mawr. Rydym yn mynd i edrych ar ddau englyn gan **R. Williams Parry** sydd yn cyfleu ei deimladau am sut dylem ni goffáu rhyfel.<br>Y mae geiriau'r englyn ***Ar Gofadail*** i'w gweld ar ddau gofadail: un ym mhentre' Pen-y-Groes a'r llall ym Methesda. Y cyntaf o gyfres o englynion yw'r un i **Hedd Wyn**, yn cyfleu galar y golled.<br>Rhowch ychydig o wybodaeth am **R. Williams Parry** i'r disgyblion:<br>• Gwirfoddolodd i ymuno â'r fyddin ym 1914, ond cafodd ei wrthod gan fod ei olwg mor wan<br>• Cafodd ei dderbyn ym mis Tachwedd 1916. Helpodd i amddiffyn Llundain rhag ymosodiadau gan zeppelins<br>• Effeithiwyd ar ei gerddi gan ei brofiadau yn y rhyfel<br>• Ei gerdd fwyaf enwog yw cyfres o englynion a ysgrifennwyd ganddo er cof am y bardd **Hedd Wyn** |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 21 12/10/2016 17:08

Bydd y disgyblion yn gweithio mewn parau. Rhannwch y disgyblion yn ddau grwp:

Grwp 1:
*Darllenwch yr englyn* ***Ar Gofadail*** *ac ystyried: Beth yw prif neges y gerdd? Sut mae'n gwneud i chi deimlo? Pa eiriau sydd yn cael yr effaith fwyaf arnoch? Sut mae'r bardd yn defnyddio'r gynghanedd i greu effaith?*

Grwp 2
*Darllenwch yr englyn* **Hedd Wyn** *ac ystyried: Beth yw prif neges y gerdd? Sut mae'n gwneud i chi deimlo? Pa dechnegau mae'r bardd yn eu defnyddio i bwysleisio ei neges? A ydy'r gerdd yn effeithiol, yn eich barn chi?*

Wedyn, gofynnwch i'r dosbarth edrych ar y cerddi eto. Chwaraewch y gerddoriaeth:

*The Lark Ascending* gan **Ralph Vaughan Williams**

*Y Post Olaf*

*Adagio For Strings* gan **Samuel Barber**

*2il Symudiad, Serenade for Strings* gan **Edward Elgar**

Bydd y disgyblion yn pleidleisio yn ddosbarth cyfan ar ba gerddoriaeth a ddylai gyd-fynd â'r darlleniad olaf o'r cerddi i gloi'r wers.

| | |
|---|---|
| Dod â'r Cyfan at Ei Gilydd<br>10 munud | Darllenwch y gerdd unwaith eto fel dosbarth gyda'r gerddoriaeth a bleidleisiodd y disgyblion drosti. |
| Ymestyn / Gwaith Cartref | Creu gludwaith sy'n cyfleu golwg **R. Williams Parry** ar y Rhyfel Byd Cyntaf. |



Llun gan: Andy Tynor a Chyngor Sir Swydd Lincoln

01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 22 12/10/2016 17:08

# TAITH Y PABI
# GWEITHGAREDD DOSBARTH AR Y SAFLE

## CERFLUNIAU Y DON NEU'R FFENESTR WYLOFUS

## CYN EICH YMWELIAD

Holwch y disgyblion a ydyn nhw wedi clywed am *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus*, wedi eu gweld ar y teledu, neu wedi ymweld â'r arddangosfa *Blood Swept Lands and Seas of Red* gan yr artist **Paul Cummins** a'r dylunydd **Tom Piper**, yn Nhŵr Llundain yn 2014 i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Rhowch ddarnau mawr o bapur o gwmpas yr ystafell gyda'r geiriau:

WEDI CLYWED AM Y CERFLUN/IAU

WEDI GWELD Y  CERFLUN/IAU AR Y TELEDU

WEDI GWELD Y CERFLUN/IAU YN YR ARDDANGOSFA

HEB GLYWED AM Y CERFLUNIAU

Gofynnwch i'r disgyblion symud at y poster sy'n berthnasol iddyn nhw.

Mae'r disgyblion sydd heb glywed amdanyn nhw eto'n symud i ble mae'r disgyblion eraill i holi eu ffrindiau a rhagor am yr arddangosfeydd.

Gofynnwch i'r disgyblion fynd yn ôl i'w seddau.

Nawr dangoswch rai o'r delweddau o'r pecyn adnoddau hwn.

---

Mewn parau, trafodwch y syniadau cyflym hyn gyda'ch gilydd:

- *Pe bai'r cerfluniau hynny'n gallu siarad, beth fydden nhw'n ei ddweud?*
- *Caewch eich llygaid a rhoi munud i chi'ch hun. Beth sy'n aros yn eich cof am y cerfluniau?*
- *Yn eich barn chi, pam defnyddiwyd y teitl,* ***Blood Swept Lands and Seas of Red****?*
- *O beth y mae'r arddangosfeydd / cerfluniau yn eich atgoffa?*



Gofynnwch i'r disgyblion weithio mewn grwpiau gyda rhwng pedwar a chwech ym mhob grŵp i greu tablo o'r arddangosfeydd hyn.

*Sut gallech chi gyfleu'r arddangosfeydd?*

Rhannwch y wybodaeth ganlynol yn y dosbarth i helpu'r plant i ddeall rhagor am yr ymweliad

- Yn wreiddiol cyflwynwyd *Y Ffenestr Wylofus* ac *Y Don* yn ddwy elfen o'r arddangosfa *Blood Swept Lands and Seas of Red* gan yr artist **Paul Cummins** a'r dylunydd **Tom Piper**
- Bob dydd, rhwng 17 Gorffennaf ac 11 Tachwedd, i nodi canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, plannwyd pabïau yn y gwair o gwmpas y cerfluniau yn Nhŵr Llundain nes i'r cyfanswm gyrraedd 888,246, sef nifer y milwyr o Brydain a'r Ymerodraeth a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf
- Gwirfoddolodd dros 30,000 o bobl i blannu'r pabïau a phlannwyd yr olaf yn y ddaear ar Ddiwrnod y Cadoediad, 11 Tachwedd 2014
- Tynnwyd y gwaith celf i lawr yn raddol a throsglwyddwyd y blodau cerameg i'r cyhoedd
- Rhoddwyd cyfran o werthiant y pabïau i Chwe elusen i filwyr, a chodwyd dros £9 miliwn ar gyfer mudiadau elusennol
- Cadwyd *Y Don* a'r *Ffenestr Wylofus* ar gyfer y dyfodol yn gerfluniau ar raddfa fawr, ac ar hyn o bryd maen nhw ar daith o gwmpas y DU
- Roedd y pabi'n olygfa gyfarwydd ar feysydd y gad ar Ffrynt y Gorllewin yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf
- Tyfodd y pabi ynghanol dinistr y rhyfela yn y ffosydd



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 23 12/10/2016 17:08

# GWEITHGAREDD YMWELD DISGYBLION

**Croeso i gerflun teithiol *Y Don* neu'r *Ffenestr Wylofus*. Byddwch chi'n ymwneud â'r arddangosfa eiconig hon ac yn rhan o drafodaeth ehangach am ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Cymerwch eich amser i archwilio a dyma rai cwestiynau i sbarduno'ch meddwl.

- Mae dros bum miliwn o bobl wedi ymweld â'r gwaith celf yn Nhŵr Llundain ac mewn lleoliadau ledled y DU. Yn eich barn chi, beth ysbrydolwyd cynifer o bobl i ymweld?
- Craffwch yn ofalus ar waith celf *Y Don* neu'r *Ffenestr Wylofus*. Disgrifiwch beth mae'r cerflun yn gwneud i chi ei deimlo. Edrychwch ar y Grid Emosiynau i'ch helpu
- Sut byddech chi'n disgrifio'r arddangosfa i rywun nad yw wedi ei gweld erioed?
- Mae pob blodyn yn yr arddangosfa wedi ei gwneud â llaw. Mae pob blodyn yn unigryw. Beth rydych chi'n ei feddwl am hyn?
- Sut mae'r arddangosfa'n cysylltu â phrofiad milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?
- Sut mae'r gwaith celf yn gwneud i ni ymateb i'r gorffennol?
- Beth yw'ch barn chi am leoliad yr arddangosfa? Ydy e'n ei gwneud hi'n ddiddorol?
- Dewch o hyd i ran o'r arddangosfa sy'n tynnu eich sylw'n barhaus heddiw. Brasluniwch y rhan hon o'r cerflun ar gefn y daflen hon. Dychmygwch fod gennych chi chwyddwydr er mwyn gweld manylion pob pabi
- Pa gwestiynau rydych chi'n awchu eu gofyn am y cerflun rydych chi'n ymweld ag e heddiw?

| Syndod | Diddordeb | Hapus | Dryslyd | Difater | Digalon | Dig | Ofnus |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wedi cael braw | Wedi gwneud argraff | Cyffrous | Cymysglyd | Ar wahân | Wedi diflasu | Trist | Wedi brawychu |
| Wedi syfrdanu | Wedi taro | Brwd | Aneglur | Dim diddordeb | Isel | Wedi cynhyrfu | Pryderus |
| Mud | Wedi cyfareddu | Hapus | Amheus | Di-hid | Edifar | Cynddeiriog | Nerfus |
| Wedi hurtio | Wedi gafael | Llawen | Hanner a hanner | Diymateb | Prudd | Dig | Wedi bygwth |
| Wedi ysgwyd | Wedi cael effaith | Gorfoleddus | Ddim yn siwr | Anghydy-mdeimladol | Siomedig | Wedi cythruddo | Wedi arswydo |
| Wedi llethu | Teimladwy | Angerddol | Siomedig | Pell | Truenus | Wedi digio | Wedi aflonyddu |
| Wedi dychryn | Wedi cyffwrdd | Ysbrydoledig | Mewn penbleth | Difraw | Difrifol | Llidiog | Ofnus |
| Wedi tramgwyddo | Ysbrydoledig | Balch dros ben | Yn pendroni | Dideimlad | Wedi tristau | Diamynedd | Mewn panig |
| Wedi cyffroi | Ymgolli | Ecstatig | Heb argyhoeddi | Diemosiwn | Diobaith | Crac | Wedi dychryn |
| Wedi drysu | Dal sylw | Bodlon | Ansicr | Heb ymglymu | Llesg | Llidiog | Amheus |



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 24 12/10/2016 17:08

# MYND YMHELLACH– PINIO EICH PABI

## GWEITHGAREDDAU AR GYFER Y COFIO A'R CANMLWYDDIANT

**Mae'r awgrymiadau *Pinio eich Pabi* isod yn galluogi disgyblion ac athrawon i ddod ynghyd i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a chydnabod straeon a lleisiau grymus yr amser. Mae'n gyfle i'r disgyblion arddangos eu barddoniaeth, paentiadau a dehongliadau hanesyddol o'r Rhyfel Byd Cyntaf a mynd yn Dywyswyr Hanes, beirdd a storïwyr. Beth am agor amserlen yr ysgol er mwyn darparu 'diwrnod dysgu dwys' neu gynnal gweithgareddau dros hanner diwrnod, ychydig o ddiwrnodau neu wythnos gyfan?**

- Trefnwch gyfres o weithdai 'Cynhyrchu Pabi' er mwyn i'r disgyblion a'r athrawon wneud eu pabi. Gwneud y templedi a'r deunyddiau sydd ar gael ar gyfer gwneud y pabi. Anogwch y disgyblion i lenwi label bach gydag ymateb personol i'r canmlwyddiant

- Chwyddwch luniau maint poster o gofebion rhyfel lleol neu ranbarthol ac arddangos y lluniau o gwmpas yr ysgol. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu beth fyddai'r milwyr yn ei ddweud am eu profiadau, bod oddi cartref, a goroesi yn amodau'r ffosydd

- Crëwch seinwedd o'r Rhyfel Byd Cyntaf mewn lle yn yr ysgol sydd heb ei ddefnyddio. Defnyddiwch YouTube i ddod o hyd i ffeiliau sain priodol sy'n cyfleu'r synau a glywyd yn y ffosydd. Gofynnwch i'r disgyblion eistedd mewn lle caeedig am funud ac wedyn llenwi cerdyn post sy'n crynhoi sut oedd y synau'n gwneud iddyn nhw deimlo a sut brofiad fyddai i filwr glywed y synau hyn mewn sefyllfa rhyfel

  Gweler: www.youtube.com/watch?v= K5pZf4Ac

- Gallai citbag milwr bwyso cymaint â 60pwys. Llenwch y bag â gwrthrychau i'w wneud mor drwm â hyn. Bydd dau fyfyriwr yn monitro'r bag ac yn gwahodd disgyblion i'w gario a phrofi'r pwysau. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu: sut byddai'n teimlo i fod yn filwr ac i gario'r bag hwn am ddiwrnod?

- Arddangoswch iaith y Rhyfel Byd Cyntaf a ddefnyddiwyd yn y ffosydd o gwmpas yr ysgol a gofyn i'r plant ddyfalu ystyr y geiriau hyn: cushy, whizz-bang, dognau haearn, Tir Neb, ac ati

  Gweler: www.theguardian.com/education/2014/jul/23/23/first-world-war-slang-glossary

- Trefnwch gyfarfod darllen barddoniaeth lle bydd disgyblion yn dewis ac yn dysgu ar y cof gyfres o gerddi'r Rhyfel Byd Cyntaf i'w perfformio yn ystod y gwasanaeth. Gellid ffilmio'r perfformiad a'i lanlwytho ar wefan yr ysgol

- Ail-grewch brofiadau recriwtio milwr trwy efelychu'r broses. Gall disgyblion arwain y gweithdy a gwisgo fel swyddogion byddin er mwyn ymgymryd â rolau allweddol. Bydd y rheini sydd am brofi'r efelychiad drama yn aros mewn rhes fel gwirfoddolwyr go iawn ac wedyn gellir holi cwestiynau iddyn nhw am ymuno â'r fyddin neu gael gwiriad iechyd neu dyngu llw i'r Brenin. Er mwyn helpu i ail-greu profiad dilys, chwiliwch wefan Amgueddfa Ryfel yr Ymerodraethol am syniadau:

  Gweler: www.iwm.org,uk/learningresources/how-did-britain-increase-and-maintain-the-fighting-force neu www.iwm.org.uk/history/from-civilian-to-first-world-war-soldier-in-steps

  Am adnoddau tebyg yn y Gymraeg gweler: http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/964840cc-95b8-46c2-a32e-c986cbb5f2ef/cy

- Arddangoswch bosteri byddin Kitchener a rhannu ffeithiau am ddynion ifanc a ymunai â'r fyddin ar ôl cyrraedd y lleiafswm oedran, sef 18. (Meddyliwch am sut y byddai llawer o fechgyn mor ifanc â 13 yn llwyddo i oresgyn y cyfyngiadau). I ddechrau'r efelychu, gallech chi roi slip o bapur sy'n rhoi oedran iddyn nhw y gallan nhw esgus bod: 15, 16, 17 a 18 oed. Meddyliwch am sut y goresgynnodd dynion ifanc gyfyngiadau'r fyddin. All y swyddogion sy'n recriwtio milwyr newydd ganfod bod rhai disgyblion o dan oed?

- Dewiswch bwnc cerddoriaeth boblogaidd o'r Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer amser tiwtora neu ABGI neu wasanaeth. Trafodwch y geiriau, dewiswch ganeuon megis *Pack Up Your Troubles* ac *It's a Long Way to Tipperary* neu *Keep the Home Fires Burning*

- Dewiswch ddisgyblion i fod yn Dywyswyr Hanes. Bydd gan y disgyblion hyn bwnc arbenigol am y Rhyfel Byd Cyntaf a nodir ar eu bathodyn enw. Eu gwaith nhw fydd dweud wrth yr ymwelwyr am adegau allweddol yn y Rhyfel Byd Cyntaf
- Gofynnwch i'r Tywyswyr Hanes wneud ymchwil rhyngrwyd cyn digwyddiadau Pinio Pabi. Eu gwaith nhw yw cyrchu llythyrau go iawn o'r rhyfel at anwyliaid a oedd yn ymladd yn y rhyfel y gall ymwelwyr a disgyblion eu darllen

  Gweler: www.iwm.org.uk/history/letters-to-loved-ones
- Efelychwch hyfforddiant byddin o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gwnewch i'r disgyblion arwain y gweithdy a gweithredu'n swyddogion byddin. Sut byddai'r hyfforddiant hwn?
  - Sefyll yn syth
  - Ymdeithio'n gyflym
  - Nodi amser (ymdeithio yn y fan)
  - Aros
  - Ymdeithio'n araf
- Arddangoswch lyfrau sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn y llyfrgell
- Trefnwch gwis Rhyfel Byd Cyntaf i athrawon ar gyfer y gwasanaeth neu ddigwyddiad ar ffurf 'University Challenge' i roi prawf ar eu gwybodaeth gyffredinol am y Rhyfel Byd Cyntaf. Caiff y tîm buddugol ei gyfweld a'i recordio ar iPad a'i lanlwytho ar wefan yr ysgol
- Gwnewch i'r disgyblion ymchwilio, drafftio a chyhoeddi llyfryn sy'n cyflwyno ffeithiau hynod a rhyfeddol am y Rhyfel Byd Cyntaf
- Archwiliwch ac ymchwiliwch i ystod o rolau a gafodd menywod yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf
- Chwaraewch amrywiaeth o ddogfennau ar system dolen sain mewn ystafell ddosbarth a ddynodwyd lle gall disgyblion ac athrawon ymweld a gwylio rhaglenni sydd o ddiddordeb iddyn nhw
- Cynhaliwch arddangosfa gelf Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r disgyblion yn cyflwyno eu paentiadau eu hunain am y Rhyfel Byd Cyntaf, ar ôl astudio paentiadau gan **Paul Nash, John Nash** a **Christopher Richard Wynne Nevinson**
- Trefnwch ganolfan barddoniaeth Rhyfel Byd Cyntaf yn yr ysgol sy'n arddangos ystod o gerddi gan y disgyblion. Gyda system dolen sain chwaraewch recordiad o'r disgyblion yn darllen eu gwaith
- Arddangoswch llinell amser darluniadol o'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n cofnodi cyfnodau allweddol
- Beth oedd dogn bwyd milwr arferol? Arddangoswch y lluniau o'r hyn yr oedd gan filwr hawl iddo mewn ardal brysur. Ceisiwch adborth y disgyblion am y dognau
- Arddangoswch 'Tommy Tin' yn yr ysgol, sef rhodd i'r milwyr yn 1914. Cafodd y milwyr dun gyda chardiau chwarae ynddo a dau far o siocled. Gofynnwch i'r disgyblion awgrymu fersiwn i'r 21ain ganrif
- Sut brofiad oedd bod yn blentyn yn y Rhyfel Byd Cyntaf? Trefnwch ystafell gyda'r disgyblion yn arddangos sut y defnyddiai'r plant eu hamser rhydd: llam llyffant, marblys, top troi, gwnïo, gweu, comics, ac ati. Gofynnwch i'r plant bleidleisio ar eu hoff gemau o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ychwanega'r disgyblion eu hoff gêm o'r Rhyfel Byd Cyntaf i'w cofnod DARGANFOD FFEITHIAU am y Rhyfel Byd Cyntaf. Disgrifiwch bob gêm o'r Rhyfel Byd Cyntaf adeg cofrestru a'r disgyblion yn gorfod dyfalu beth yw'r gêm dan sylw



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 26 12/10/2016 17:08

# DOLENNI GWEFAN Y RHYFEL BYD CYNTAF

**Ar y wefan 'Hwb' i athrawon** yng Nghymru ceir amrywiaeth o ddeunyddiau a chynlluniau gwersi ar y Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith ar gymunedau Cymru, yn ôl cyfnod allweddol, thema a maes pwnc.

## HWB.WALES.GOV.UK

**Recriwtio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/964840cc-95b8-46c2-a32e-c986cbb5f2ef/en

**Bywyd ar Ffrynt y Gorllewin**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/ce06d43a-041d-46d3-9388-4704b529c95c/en

**Brwydr Coed Mametz**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/4ec53621-5c23-4eb6-b0ef-577367fd5ce5/en

**Y Bardd Rhyfel Hedd Wyn**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/e8c6e38c-3510-4a82-9db5-ee567881095c/en

**Propaganda yn y Rhyfel Byd Cyntaf**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/61f45162-7817-4770-a6e7-8771843d8f37/en

**Gwrthwynebwyr Cydwybodol yn y Rhyfel Byd Cyntaf**

http://www.walesforpeace.org/wfp/voicesofconscience.html

Ffilm

**Fideos: Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/7561cf53-5f45-4c91-a282-6dc5828a6ba0/en

**Ffilmiau o Gymru adeg y Rhyfel**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/36f0d4e6-f413-4f00-a075-070c3419ae4c/en

Celf a Drama

**Paentiad Christopher Williams o'r Adran Gymreig yng Nghoed Mametz, 1916**

https://museum.wales/cardiff/whatson/8949/Wars-Hell-The-Battle-of-Mametz-Wood-in-Art/

**Celf a Dylunio: Newid yr Adran Gymreig yng Nghoed Mametz**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/f3f5381b-4ab6-4685-bbb9-c31309d44b97/en

**I'r Gad, Fechgyn Gwalia - profiad dau frawd**

http://hwb.wales.gov.uk/Resources/resource/46e05854-bef9-4bfb-b961-57ac16f5ea7b/en

**Darluniau David Jones o'r Ffosydd**

http://www.iwm.org.uk/collections/item/object/14471

http://www.iwm.org.uk/collections/item/object/14472

https://www.google.co.uk/search?q=david+jones+drawings+from+the+trenches&biw=1366&bih=614&tbm=isch&tbo=u&source=univ&sa=X&ved=0ahUKEwjaoISL-O3OAhUJPBQKHcoYClkQsAQIOQ



01862_1418NOW_Poppies_Education_Pack_Welsh_BOOK_Translated.indd 27 12/10/2016 17:08

# 14-18-NOW

**WW1 CENTENARY ART COMMISSIONS**

Rhaglen pum mlynedd o brofiadau celf rhyfeddol yw 14-18 NOW sy'n cysylltu pobl â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gan weithio gyda phartneriaid ar draws y DU, rydym yn comisiynu gweithiau celf newydd gan artistiaid ar draws pob platfform, sydd wedi eu hysbrydoli gan y cyfnod 1914-18.

Mae'r gweithiau celf newydd hyn yn dod â straeon y Rhyfel Byd Cyntaf yn fyw, yn cynnig persbectifau newydd ac yn cysylltu gwrthdaro rhyngwladol dros 100 mlynedd yn ôl â'n byd ni heddiw. Hyd yn hyn mae dros 30 miliwn o bobl wedi bod yn rhan o'n rhaglen ni.

Darganfyddwch ragor a llofnodi ar gyfer cylchlythyrau e-bost yn: **1418NOW.org.uk**

Dilynwch ni ar Instagram 1418NOW

Gwyliwch ni ar YouTube 1418NOW

Dilynwch ni ar @1418NOW

Hoffwch ni ar Facebook Facebook

Learning and Engagement

Supported using public funding by

LOTTERY FUNDED